**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-21-02(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Bwyllgora 3&4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles – Canllawiau Drafft** |

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi ei sylwadau ar ganllawiau drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

## Cefndir

2. Datblygodd y model ar gyfer Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles o 'Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid' y gwnes i ei lansio ym mis Chwefror 2001. Roedd y Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Partneriaethau Strategol ar gyfer Iechyd a Les yn ardal pob awdurdod lleol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir rhoi arweiniad cryf ar lefel uchel o fewn y GIG a llywodraeth leol.
3. Fel rhan o Raglen Weithredu Cynllun y GIG, sefydlwyd Grwp Gorchwyl Gorffen ar Weithio ar y Cyd er mwyn ystyried yr ymrwymiadau yn y bennod yn y Cynllun a oedd yn ymdrin â Gweithio ar y Cyd. Roedd aelodau'r Tasglu yn dod o gefndiroedd eang - o'r GIG, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, y sector annibynnol a'r proffesiynau iechyd. Fe wnaeth y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Weithio ar y Cyd gynnig model ar gyfer y Partneriaethau Strategol ar Iechyd a Lles.
4. Seiliwyd y cyfarwyddiadau drafftio seneddol ar gyfer adran 24 o Ddeddf Diwygio'r GIG a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002 ar y model a argymhellwyd. Mae Adran 24 yn cynnwys darpariaethau a fydd, unwaith y byddant mewn grym, yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol a phob bwrdd iechyd lleol newydd i lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd a Lles ar y cyd ar gyfer eu hardaloedd hwy.

5. Mae'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd a bydd yn cael ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr. Cafodd y rheoliadau drafft eu hystyried yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 29 Mai, cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Yn ystod y drafodaeth, dywedodd y Pwyllgor y dylid cynnwys y geiriau 'gofal cymdeithasol' yn nheitl y rheoliadau er mwyn adlewyrchu nod y Strategaethau'n llawn, h.y. Rheoliadau Strategaethau Iechyd, *Gofal Cymdeithasol* a Lles (Cymru). Mae hynny wedi'i wneud ac mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r newid hwnnw. Roedd y Pwyllgor yn awyddus hefyd i'r rheoliadau a'r canllawiau gyfeirio'n benodol at ran y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn y gwaith o lunio'r Strategaethau. Gallaf gadarnhau fod hynny wedi'i wneud.
6. Bydd y gofyniad i baratoi Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn dod i rym ar 1 Ebrill 2003.

**Canllawiau Drafft**

7. Mae'r pecyn canllawiau'n ategu'r ddeddfwriaeth drwy roi mwy o fanylion i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'u partneriaid am ddatblygu Strategaeth leol ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Cynhwysir y canllawiau drafft mewn dwy ddogfen sy'n ategu'i gilydd:

i. *'Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles: Canllawiau Polisi'*; sy'n nodi cynlluniau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; a
ii. '*Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles: Paratoi Strategaeth'*- canllawiau sy'n statudol o dan adran 24 o Ddeddf Diwygio'r GIG a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys canllaw ar baratoi Strategaeth.

2. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar y canllawiau drafft a bydd yr ymgynghoriad yn para tri mis. Bydd yn dod i ben ddiwedd mis Ionawr. Anfonwyd y canllawiau i ystod eang o gyrff er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn cael sylwadau gan amrywiaeth o sectorau ym meysydd iechyd a lles. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol hwn, cynhaliwyd cyfres o seminarau ymgynghori er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Strategaethau a derbyn sylwadau. Mynychodd ystod eang o randdeiliaid o'r sector statudol a'r sector anstatudol y seminarau.

**Yr amserlen**

3. Awgrymaf yr amserlen ganlynol:

   i. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 6 Ionawr 2003;
   ii. Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chwblhau'r canllawiau yn ystod mis Ionawr 2003;
   iii. Cyhoeddi'r canllawiau terfynol ym mis Chwefror 2003;
   iv. Y rheoliadau a'r canllawiau statudol yn dod i rym ar 31 Mawrth 2003, gyda'r dyletswydd i lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles o 1 Ebrill 2003 ymlaen.

**Camau i'w cymryd**

2. Byddwn yn falch o dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gynnwys y canllawiau drafft.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Person Cyswllt: Lynne Hamilton (Ffôn: 029 20681388)